**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/HIDCC/0058/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

13 Chwefror 2025

Annwyl Mike,

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 2 Rhagfyr 2024, cynrychiolais Lywodraeth Cymru yn seithfed cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyng-Weinidogol ar 3 Rhagfyr 2024. Mae disgwyl i gyfathrebiad ynglŷn â'r cyfarfod hwn gael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU yn y ffordd arferol.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn a'r Gweinidog dros Gysylltiadau Rhynglywodraethol, y Gwir Anrhydeddus Pat McFadden AS.

Y gweinidogion eraill oedd yn bresennol oedd:

O Lywodraeth y DU: Y Gweinidog Gwladol dros Bolisi Masnach a Diogelwch Economaidd, y Gwir Anrhydeddus Douglas Alexander AS; Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Gwir Anrhydeddus Jo Stevens AS; ac Ysgrifennydd Gwladol yr Alban, y Gwir Anrhydeddus Ian Murray AS.

O Lywodraeth yr Alban Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Gaeleg, Kate Forbes ASA.

O Weithrediaeth Gogledd Iwerddon: Y Prif Weinidog Michelle O'Neill ACD; a'r Dirprwy Brif Weinidog Emma Little-Pengelly ACD.

Galluogodd yr agenda drafodaeth ar ystod o faterion, gan gynnwys: gwytnwch ac ymatebion pob llywodraeth i adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad Covid-19 y DU a oedd yn canolbwyntio ar gynllunio cyn y pandemig; a'r Rhaglen Fframweithiau Cyffredin a Deddf Marchnad Fewnol y DU (2020).

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mewn perthynas â'r drafodaeth ar wytnwch ac ymateb pob llywodraeth i adroddiad cyntaf Covid-19 y DU, amlygais ei bod yn bwysig i'r adroddiad hwn a hefyd adroddiadau yn y dyfodol ein bod yn gweithio gyda'n gilydd fel llywodraethau ledled y DU. Er bod Llywodraeth Cymru yn gyffredinol yn cefnogi'r argymhellion mewn egwyddor, codais bwysigrwydd ymatebion i'r argymhellion gan ystyried gwahaniaethau yn y setliadau datganoli ar draws ein gwledydd. Yn ogystal, mae absenoldeb cyllid canlyniadol Barnett ar gyfer materion wrth gefn sifil yn cyfyngu ar fuddsoddiad yn yr agenda bwysig hon. Amlinellais hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn hoffi cryfhau ymgysylltiad traws-DU ar wytnwch ar lefel Weinidogol.

Fel rhan o'r drafodaeth sy'n ymwneud â'r Rhaglen Fframweithiau Cyffredin, amlygais, lle mae Fframweithiau Cyffredin wedi'u hymgorffori ar hyn o bryd, fod Fframweithiau Cyffredin yn enghraifft gadarnhaol o waith rhynglywodraethol effeithiol ac wedi creu lle ar gyfer arloesi o fewn cymwyseddau datganoledig. Yn anffodus, dros y blynyddoedd diwethaf, profiad Llywodraeth Cymru o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU (2020) yw ei bod wedi tanseilio pwrpas Fframweithiau Cyffredin. Felly, rhaid gosod y cydadwaith rhwng y ddau wrth wraidd trafodaethau ar y materion hyn.


Yn y cyd-destun hwn, trafododd y Pwyllgor hefyd Ddeddf Marchnad Fewnol y DU (2020) a'r cynlluniau ar gyfer yr adolygiad statudol yn 2025. Pwysleisiais ein gobaith y bydd y gwaith hwn yn darparu llwyfan ar gyfer diwygio i fynd i'r afael â'r problemau cyfansoddiadol difrifol gyda'r Ddeddf. Tynnais sylw at ffocws Llywodraeth Cymru ar dwf a'r rôl bwysig y gall marchnad fewnol sy'n gweithredu'n dda ei chwarae, ond fe wnes i'n glir nad y Ddeddf fel y mae'n sefyll yw'r dull cywir. Cynigiais weithio gyda Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig eraill ar ddull o ddiwygio llywodraethu marchnad fewnol y DU mewn ffordd a oedd yn croesawu datganoli. Roeddwn yn edrych ymlaen at gydweithio ar y materion hyn wrth i'r Ddeddf gael ei hadolygu'n statudol yn 2025.

Ni thrafodwyd eitem agenda ar Gonfensiwn Sewel a deddfwriaeth y DU oherwydd cyfyngiadau amser, ac felly rwy'n disgwyl i'r materion hyn ymddangos mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Disgwylir i'r Pwyllgor Sefydlog Rhyng-Weinidogol nesaf gael ei gynnal ddechrau gwanwyn 2025, gyda threfniadau cadeirio i'w penderfynu.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Eluned Morgan AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Rebecca Evans AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, Julie James AS, yn ogystal ag at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, ar y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs